Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

Plant a phobl ifanc

Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

Canfyddiadau Allweddol.

- Credir yn gyffredinol fod ymddygiad pobl ifanc yn waeth nag ydoedd yn y gorffennol ac nad oes gan bobl ifanc barch tuag at bobl hŷn.
- Mae nifer sylweddol o boblogaeth Cymru yn credu na wrandewir ar farn pobl ifanc ddigon.

Plant a phobl ifanc

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnig dadansoddiad o nifer o ddatganiadau agwedd ynglŷn â sut y mae eraill yn canfod plant a phobl ifanc[1] ac ymddygiad pobl hŷn tuag atynt.

Ymddygiad ac agweddau pobl ifanc

Ymhlith oedolion yng Nghymru roedd safbwyntiau cryf ynglŷn ag ymddygiad ac agweddau plant a phobl ifanc. Cytunodd tri chwarter yr oedolion yng Nghymru â'r datganiad 'mae ymddygiad pobl ifanc heddiw yn waeth nag ydoedd yn y gorffennol', tra anghytunodd 17 y cant.

O ran rhyw, roedd menywod (77 y cant) ychydig yn fwy tebygol na dynion (73 y cant) o gytuno bod ymddygiad pobl ifanc heddiw yn waeth nag ydoedd yn y gorffennol. Mae'n syndod o bosibl nad oedd gwahaniaethau sylweddol yn ôl oedran, gyda'r grŵp oedran ieuangaf yr un mor debygol o gytuno â'r datganiad hwn â'r hynaf - roedd 77 y cant o'r rhai 16-34 oed a 73 y cant o'r rhai dros 65 oed yn cytuno â'r datganiad hwn.

Roedd oedolion yng Nghymru a oedd yn dod o gartrefi C2[2] neu DE[3] yn llawer mwy tebygol na'r rhai a oedd yn dod o gartrefi AB [4] neu C1[5] o gytuno bod ymddygiad pobl ifanc heddiw yn waeth nag ydoedd yn y gorffennol (cytunodd 81 y cant o oedolion C2 a 85 y cant o oedolion DE o gymharu â 65 y cant o oedolion AB a 71 y cant o oedolion C1). O ystyried bod oedolion C2 ne DE yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod wedi gorffen eu haddysg yn 16 oed neu'n iau, cafodd patrwm yr ymatebion gan oedolion C2 a DE ei efelychu ymhlith y rhai a oedd wedi gorffen eu haddysg yn 16 oed neu'n iau (tabl 9.1).

Mae'n syndod o bosibl nad oedd teuluoedd heb blant yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwnnw na'r rhai â phlant yn y cartref. Nid oedd gwahaniaethau sylweddol ychwaith o ran ethnigrwydd.

[1] Defnyddir y term 'pobl ifanc' yma i gyfeirio at y rhai rhwng 11 a 25 mlwydd oed.
[2] Gweithwyr llaw crefftus
[3] Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft neu sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth/sy'n ddi-waith
[4] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi rheoli/gweinyddol/proffesiynol uwch a chanolraddol
[5] Cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi goruchwylio, clercol, is-reoli/gweinyddol/proffesiynol.

Tabl 9.1 Cytuno â'r datganiad 'mae ymddygiad pobl ifanc heddiw yn waeth nag ydoedd yn y gorffennol yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**75**
Dynion	*744*	*768*	73
Menywod	*845*	*821*	77
Oedran: 16-34	*385*	*413*	77
35-54	*598*	*581*	75
55-64	*262*	*248*	72
65+	*344*	*347*	73
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	75
Arall	*151*	*34*	77
Pâr, â phlant	*404*	*392*	76
Pâr, heb blant	*542*	*524*	74
Sengl, â phlant	*115*	*126*	78
Sengl, heb blant	*522*	*541*	75
AB	*382*	*376*	65
C1	*533*	*538*	71
C2	*242*	*241*	81
DE	*428*	*431*	85

Roedd canfyddiadau negyddol eraill o ymddygiad ac agweddau pobl ifanc yn amlwg pan gyflwynwyd y datganiad *'nid oes gan bobl ifanc barch tuag at bobl hŷn'* i oedolion yng Nghymru. Cytunodd tua thri chwarter yr oedolion yng Nghymru â'r datganiad hwn (73 y cant), tra anghytunodd tua un o bob pump (19 y cant). Nid oedd gwahaniaethau o ran lefelau cytundeb yn ôl rhyw, oedran neu a oedd plant yn bresennol yn y cartref.

O ran ethnigrwydd, roedd oedolion gwyn Prydeinig/Cymreig yn llai tebygol o gytuno nad oes gan bobl ifanc barch tuag at bobl hŷn na'r rhai a oedd yn perthyn i grwpiau ethnig nad oeddent yn wyn (cytunodd 73 y cant o gymharu ag 81 y cant yn y drefn honno).

Gwelwyd gwahaniaethau clir hefyd o ran cytuno â'r datganiad hwn yn ôl gradd gymdeithasol. Roedd oedolion C2 yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad nag oedolion o bob gradd gymdeithasol arall - 81 y cant o oedolion o gartrefi C2 o gymharu â 69 y cant, 72 y cant a 74 y cant o oedolion o gartrefi AB, C1 a DE yn y drefn honno. Yn gysylltiedig â gradd gymdeithasol, roedd y rhai a orffennodd eu haddysg yn 16 oed neu'n iau yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rhai a orffennodd eu haddysg yn 17 oed neu'n hŷn - 78 y cant o gymharu â 70 y cant neu'n is yn y drefn honno.

Tabl 9.2 Cytuno â'r datganiad 'nid oes gan bobl ifanc barch tuag at bobl hŷn' yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**73**
Dynion	*744*	*768*	75
Menywod	*845*	*821*	71
Oedran: 16-34	*385*	*413*	75
35-54	*598*	*581*	75
55-64	*262*	*248*	70
65+	*344*	*347*	71
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	73
Arall	*151*	*34*	81
Pâr, â phlant	*404*	*392*	73
Pâr, heb blant	*542*	*524*	73
Sengl, â phlant	*115*	*126*	78
Sengl, heb blant	*522*	*541*	73
AB	*382*	*376*	69
C1	*533*	*538*	72
C2	*242*	*241*	81
DE	*428*	*431*	74

Parch tuag at bobl ifanc a'u barn hwy

Cytunodd dros hanner (54 y cant) o oedolion yng Nghymru â'r datganiad *'nid oes gan bobl hŷn barch tuag at bobl ifanc'*. Anghytunodd 36 y cant o oedolion yng Nghymru. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n fawr â thri chwarter y boblogaeth a gytunodd 'nad oes gan bobl ifanc barch tuag at bobl hŷn'. Dengys hyn fod y datganiad hwn yn fwy tebygol o daro tant ymhlith oedolion yng Nghymru.

Nid oedd gwahaniaethau cyffredinol o ran cytuno â'r datganiad yn ôl rhyw. Fodd bynnag, fel y gellid ei ddisgwyl, roedd oedran yn chwarae rhan bwysig. Roedd pobl 16-54 (57 y cant) yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl dros 55 oed (46 y cant).

Roedd gwahaniaeth amlwg o ran cytuno rhwng cartrefi â phlant a'r rhai heb blant. Roedd oedolion yng Nghymru â phlant yn llawer mwy tebygol o gytuno nad oes gan bobl hŷn barch tuag at bobl ifanc na'r rhai heb blant - 65 y cant o gymharu â 50 y cant yn y drefn honno. Fodd bynnag, roedd y grŵp olaf yn tueddu i gynnwys oedolion hŷn.

Nid oedd amrywiad sylweddol o ran cytuno yn ôl gradd gymdeithasol neu ethnigrwydd.

Tabl 9.3 Cytuno â'r datganiad ‘nid oes gan bobl hŷn barch tuag at bobl ifanc' yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**54**
Dynion	*744*	*768*	53
Menywod	*845*	*821*	55
Oedran: 16-34	*385*	*413*	62
35-54	*598*	*581*	58
55-64	*262*	*248*	49
65+	*344*	*347*	44
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	55
Arall	*151*	*34*	49
Pâr, â phlant	*404*	*392*	64
Pâr, heb blant	*542*	*524*	50
Sengl, â phlant	*115*	*126*	67
Sengl, heb blant	*522*	*541*	50
AB	*382*	*376*	54
C1	*533*	*538*	54
C2	*242*	*241*	60
DE	*428*	*431*	53

Er gwaethaf canfyddiadau negyddol ynglŷn ag ymddygiad ac agweddau pobl ifanc, teimlai'r mwyafrif o oedolion yng Nghymru 'nad yw oedolion yn gwrando ar farn pobl ifanc ddigon'. Cytunodd tua dau o bob tri (67 y cant), o oedolion yng Nghymru tra anghytunodd tua chwarter (24 y cant).

Roedd oedolion yng Nghymru yn y band oedran ifancaf yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na'r rhai yn y band oedran hynaf (73 y cant o bobl 16-34 oed o gymharu â 61 y cant o bobl dros 65 oed). Ymddengys y gellir priodoli'r gwahaniaeth hwn i fenywod gan fod y rhai 16-34 oed yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl 55-64 oed neu dros 65 oed - 78 y cant o bobl16-34 oed o gymharu â 67 y cant o bobl 55-64 oed a 57 y cant o bobl dros 65 oed.

Roedd yr oedolion hynny a oedd yn 'sengl â phlant yn byw yn y cartref' yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl o unrhyw

statws teuluol arall (cytunodd 83 y cant o gymharu â 70 y cant neu'n is i bob grŵp arall). Unwaith eto mae hyn yn ymwneud ag oedran, gan fod 58 y cant o bobl sengl â phlant yn dod o fewn yr amrediad oedran 16-34.

Nid oedd gwahaniaethau yn ôl ethnigrwydd na gradd gymdeithasol.

Tabl 9.4 Cytuno â'r datganiad 'nid yw oedolion yn gwrando ar farn pobl ifanc ddigon' yn ôl is-grŵp

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Cytuno (yn gryf neu'n dueddol o gytuno) (y cant)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**67**
Dynion	*744*	*768*	65
Menywod	*845*	*821*	69
Oedran: 16-34	*385*	*413*	73
35-54	*598*	*581*	67
55-64	*262*	*248*	65
65+	*344*	*347*	61
Dynion: 16-34 oed	*172*	*193*	67
35-54	*297*	*298*	64
55-64	*128*	*125*	63
65+	*147*	*153*	66
Menywod: 16-34 oed	*213*	*220*	78
35-54	*301*	*284*	71
55-64	*134*	*123*	67
65+	*197*	*194*	57
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	67
Arall	*151*	*34*	59
Pâr, â phlant	*404*	*392*	70
Pâr, heb blant	*542*	*524*	64
Sengl, â phlant	*115*	*126*	83
Sengl, heb blant	*522*	*541*	65
AB	*382*	*376*	64
C1	*533*	*538*	67
C2	*242*	*241*	67
DE	*428*	*431*	70

Crynodeb

Mae'r ymchwil yn amlygu rhai canfyddiadau eithaf negyddol o bobl ifanc ymhlith oedolion yng Nghymru, a gwelir yr un peth mewn meysydd eraill o'r arolwg (gweler isod).

Cytunodd tua thri chwarter yr oedolion yng Nghymru fod ymddygiad pobl ifanc yn waeth nag ydoedd yn y gorffennol ac nad oes gan bobl ifanc barch tuag at bobl hŷn. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny dim ond hanner a gredai nad oes gan bobl hŷn barch tuag at bobl iau.

Eto i gyd, cytunodd dau o bob tri o oedolion yng Nghymru nad oedd oedolion yn gwrando ar farn pobl ifanc ddigon. Efallai fod hyn yn dangos cydnabyddiaeth bod cysylltiad o bosibl rhwng y ffaith nad yw pobl ifanc yn teimlo bod eraill yn 'gwrando arnynt' a'r effaith ar eu hymddygiad. Yn yr achos hwn, roedd oedran yn dylanwadu'n gryf ar y canlyniadau: roedd pobl hŷn (dros 65 oed) yn llai tebygol o gytuno na grwpiau oedran iau (16-34) nad oedd eraill yn gwrando ar farn pobl ifanc ddigon.

Mae'r dogfennau dadansoddi eraill 'Ymwneud Bob Dydd' a 'Y Gweithle' yn ystyried agweddau eraill tuag at blant a phobl ifanc.

Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil ar gael ar dudalennau'r Comisiwn yng Nghymru ar ein gwefan yn:

www.equalityhumanrights.com

Ynglŷn â'r arolwg o agweddau

Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru GfK NOP i ymgymryd ag ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu o ran rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion o ran oedran, crefydd a ffydd a hefyd y Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mesur sylfaenol o agweddau y gellid eu mesur eto yn y dyfodol.

Roedd y sampl yn cynnwys 1,589 o ymatebwyr. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Cafodd pob ymatebwr y dewis o gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Ymdriniwyd â materion o ran mynediad drwy gynnig y cyfle i ddefnyddio gwasanaeth TypeTalk i'r rhai â nam ar y clyw. I'r rhai a gafodd anhawster i gyfathrebu yn Saesneg cynigiwyd y cyfle i ddefnyddio Llinell Iaith i gyfieithu'r cyfweliad.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfuno dewis rhifau drwy Ddeialu Digidau ar Hap (RDD) a defnyddio cwotâu i reoli proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Pennwyd cwotâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw ynghyd â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig a gafwyd o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ôl y ffactorau hyn.

Hybwyd cyfweliadau mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

Cymharu â'r Alban a Phrydain Fawr

Cymharwyd y canfyddiadau ag Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a'r archwiliad o ganfyddiadau a gynhaliwyd gan GfK NOP. Dylid nodi mai dim ond cymharu'n fras y gellir ei wneud am fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio yn y ddau arolwg hyn. Felly, mae'n rhaid trin unrhyw debygolrwydd neu wahaniaeth rhwng canfyddiadau'r arolygon hyn a chanlyniadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru fel rhai dangosol yn hytrach na rhai absoliwt.